

**Cyngor Cymuned Llangywer**

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Llangywer ar 15fed o Orffennaf ac yn bresennoedd oedd Y Cadeirydd, Linda Morris, Olwen Jones (Is-gadeirydd), John Morris, Gwyn Roberts, W D Williams, Emyr Jones, Alan Evans (Cynghorydd Gwynedd a Lis Puw. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eleri Jones.

Nid oedd datganiadau o ddiddordeb / buddiant mewn materion ar yr agenda; nid oedd y Cadeirydd wedi cymryd rhan yn nhrafodaeth cais cynllunio Rhydwen.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 8fed o Fai 2013.

**Gohebiaeth :**

Gwynedd: derbyniwyd Rhaglen Waith y mis a gwybodaeth am arwisgo ffyrdd.

Parc Cenedlaethol Eryri: derbyniwyd gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfodydd; cadarnhawyd cymeradwyo Cais NP5/70/135 (cynllun dŵr Rhydwen); cadarnhawyd cymeradwyo Cais NP/70/T618 (fffenestri dormer Tŷ Newydd); derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais Cefn y Meirch.

Un Llais Cymru: derbyniwyd gwybodaeth am y Cyfarfod Blynyddol; derbyniwyd Y Llais; cafwyd adroddiad gan W D Williams o Bwyllgor Ardal mis Mehefin a chytunwyd i holi ymhellach am y gofeb arfaethedig yng ngwlad Belg i gofio'r Cymry a syrthiodd yn Fflandrys yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Arall: Derbyniwyd llythyr gan Menna Machreth am y "Cynghrair Cymunedau Cymraeg" a chytunwyd i ofyn am y pecyn gwybodaeth.

Derbyniwyd neges am Gynllunio Sir Ddinbych a chytunwyd i'r Clerc anfon i fynegi pryder y Cyngor am y cynllun arfaethedig i godi nifer fawr o dai ym Modelwyddan

Derbyniwyd gwybodaeth gan Y Loteri Fawr ac adroddiad blynyddol yr Ombwdsman .

Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y rhoddion tuag at Neuadd Llangywer a Chymdeithas Glyn a Rhos. Derbyniwyd hefyd llythyr o ddiolch oddi wrth Glybiau Ffermwyr Ieuan, Tŷ'r Eos a'r Eisteddfod Gylch.

**Materion ariannol:**

Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol a thaliad cyntaf y Praesept.

Cytunwyd i dalu'r anfoneb flynyddol tuag at weinyddu Partneriaeth Penllyn.

Arwyddwyd ffurflen Hacker Young i'w hanfon yn ôl.

Derbyniwyd polisi Yswiriant AON

Derbyniwyd siec parthed carreg fedd. Cytunwyd i holi'r ymgymerydd parthed bedd arall y gosodwyd carreg arni yn ddiweddar.

**Partneriaeth Penllyn** – derbyniwyd adroddod y cynrychiolwyr mai'r Cwmni sydd bellach yng ngofal cynnal a chadw rhai o safleoedd Parc Cenedlaethol Eryri. Diolchwyd i Bartneriaeth Penllyn am y cynnig o gynrychiolydd i gyflwyno gwaith y Bartneriaeth i'r Cyngor. Cymeradwywyd creu un gwefan ar gyfer Cynghorau Penllyn.

**Unrhyw Fater Arall** – addawodd Y Cynghorydd Sir godi gyda'r swyddogion perthnasol faterion y coed sydd wedi tyfu'n uchel ar gyfer Tŷ'n Gwrych, a'r tyfiant rhwng y ddwy afon yn Rhosygwaliau. Addawodd Gwyn Roberts dorri'r gangen sy'n peri pryder yn y fynwent.